Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu • Police DYFED-POWYS

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014

DATGANIAD CYFRIFON

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2025

Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Ariannol Cyfrifol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon ac ardystio ei fod yn ddatganiad cywir ac yn ddarlun teg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Mae'r rheoliadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2025 ar gyfer cyfrifon yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi y dylai datganiadau archwiliedig gael eu cwblhau a'u llofnodi erbyn 31 Gorffennaf 2025.

Nodir isod eu hamserlen arfaethedig wedi cytuno gan Archwilio Cymru ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol

| Blwyddyn | I'w paratoi | Ardystiad Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| 2024-25 | 30 Mehefin 2025 | 31 Hydref 2025 |
| 2025-2026 ymlaen | 30 Mehefin 2026 | 30 Medi 2026 |

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 eisoes yn darparu ar gyfer awdurdodau sy'n gorfod oedi cyn paratoi a chyhoeddi eu cyfrifon ariannol blynyddol. Oherwydd rheoliad 10(4), gall awdurdodau gynnwys nodyn ar wefannau i ddweud pam nad ydynt wedi paratoi neu gyhoeddi eu cyfrifon o fewn terfynau amser presennol i gydymffurfio â deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori a gwneud diwygiadau i'r rheoliadau i ymgorffori'r dyddiadau hyn, ond maent wedi nodi y bydd angen i gyrff llywodraeth leol barhau i ddibynnu ar reoliad 10(4) yn y cyfamser a gofynnir bod cyrff yn sicrhau eu bod yn cyhoeddi'r hysbysiadau gofynnol fel y nodir yn y rheoliadau

Felly, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol, ac oherwydd nifer o alwadau gan gynnwys yr amserlen archwilio estynedig, ni fydd y swyddogion ariannol cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r cyfrifon am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 o fewn y terfynau amser statudol ond byddant yn parhau i weithio o fewn y terfynau amser estynedig a ddangosir yn y tabl uchod ar gyfer paratoi ac ardystio cyfrifon.

Dyddiad: 19eg Mai 2025